# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **29 MEHEFIN 2009** |
| TEITL | **ADRODDIAD BLYNYDDOL "PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL" 2008/09** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **MYNEGI BARN ARCHWILIO MEWNOL AR YR AMGYLCHEDD REOLAETH GYFFREDINOL O FEWN YR AWDURDOD** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Fel "Pennaeth Archwilio Mewnol" Cyngor Gwynedd yn unol â gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig, mae gofyn arnaf i ddarparu sicrwydd i'r awdurdod ar y system gyflawn o reolaeth fewnol yn yr awdurdod. Wrth roi fy marn, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i'r Cyngor ydi sicrwydd rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

1.2 Wrth asesu'r lefel sicrwydd i'w roi, rwyf wedi ystyried pob archwiliad sy'n berthnasol i 2008/09 ac unrhyw weithrediad dilynol parthed archwiliadau o'r cyfnod yma a chyfnodau blaenorol.

## 2. SICRWYDD CYFFREDINOL

**2.1 Yn fy marn i, mae gan Cyngor Gwynedd fframwaith gadarn o reolaeth fewnol er mwyn cynnig sicrwydd rhesymol parthed cyflawniad effeithiol ac effeithlon o amcanion y Cyngor, gan fod y camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol i sefydlu a cryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod argymhellion i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol.**

### 2.2 Ystyriaethau

Er mwyn rhoi fy marn ar ddigonolrwydd y systemau rheolaeth fewnol, rwyf wedi ystyried y canlynol:

- Yn gyffredinol, canfuwyd rheolaeth fewnol dda o fewn pob un o wasanaethau'r Cyngor yn unigol.
- Ble canfuwyd gwendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol, cafodd y materion hyn eu cywiro gan swyddogion y Cyngor, neu fe dderbyniasont sylw gan y Pwyllgor Archwilio.
- Nid yw Archwilio Mewnol wedi dibynnu ar unrhyw waith gan gyrff archwilio allanol er mwyn dod i'r farn yn yr adroddiad yma.

## 3. GWAITH ARCHWILIO

### 3.1 Gwaith a gyflawnwyd

3.1.1 Mae 95% o'r gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 2008/09 wedi ei gyflawni. Mae rhestr o'r archwiliadau o gynllun 2008/09 sydd wedi cyfrannu at y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

3.1.2 Ble nad oedd adroddiad terfynol unrhyw archwiliad a restrir yn Atodiad 1 wedi ei rhyddhau cyn 1 Ebrill 2009, roedd y gwaith ym mhob un ohonynt yn cwmpasu'r amgylchedd reolaeth yn ystod blwyddyn ariannol 2008/09, ac roedd canlyniadau'r profion yn ddigonol at bwrpasau fy ngalluogi i roi barn ar yr amgylchedd reolaeth.

3.1.3 Yn ogystal â'r adroddiadau arferol o'r cynllun, adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio yn Rhagfyr 2008 am adneuon y Cyngor gyda Banc Heritable, oedd wedi ei roi yn nwylo'r gweinyddwyr.

### 3.2 Addasiadau i'r Cynllun

Adroddwyd ar addasiadau i'r cynllun archwilio yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn.

### 3.3 Adnoddau Archwilio Mewnol

3.3.1 Mae Atodiad 2 yn cynnwys dadansoddiad o'r defnydd o adnoddau Archwilio Mewnol yn ystod 2008/09. Roedd y dyddiau cynhyrchiol a gyflenwyd er mwyn cwblhau archwiliadau yng Nghyngor Gwynedd yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2009 yn 1,736 diwrnod, o'i gymharu â 1,579 diwrnod am yr un cyfnod yn 2007/08.

3.3.2 Yn ystod y flwyddyn gwelwyd peth trosiant staff, oedd yn golygu fod swyddi wedi bod yn wag am gyfnodau. Fodd bynnag, cafwyd ail-strwythuro llwyddiannus yn ystod y flwyddyn, gyda penodiadau newydd o staff sy'n arddangos gwir botensial. Hefyd, roedd nifer o swyddogion Archwilio Mewnol yn astudio am gymhwysterau proffesiynol:

- Arweinydd Tîm ac Uwch Archwiliwr yn astudio am gymhwyster ACCA
- Uwch Archwiliwr yn astudio am gymhwyster CIPFA
- Uwch Archwiliwr yn astudio am gymhwyster IIA (Institute of Internal Auditors)

Mae 3 o swyddogion yr Uned â chymhwyster CIPFA llawn, ac mae gan yr Uwch Archwiliwr (TG) gymhwyster archwilio cyfrifiaduron ISACA.

3.3.3 Gwelir fod lleihad cyffredinol wedi bod yn nifer y ddyddiau digynnyrch yn ystod y flwyddyn ar feysydd megis gweinyddiaeth a "Gwaith Cefndirol", sydd wedi cyfrannu at y cynnydd o 10% yn yr adnodd y bu'n bosib ei gyfrannu i archwilio rheolaethau mewnol Cyngor Gwynedd yn ystod 2008/09 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Unwaith eto, ni fu angen ddefnyddio staff asiantaeth allanol dros dro, er gwaethaf swyddi gwag, yn ystod 2008/09.

## 4. SICRWYDD GWEITHREDOL

4.1 Cafodd yr archwiliadau a gyflawnwyd ac sy'n berthnasol i flwyddyn ariannol 2008/09 eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfodydd rheolaidd a gynhalwyd ar:

- 26 Mehefin 2008
- 30 Medi 2008
- 18 Rhagfyr 2008
- 12 Mawrth 2009
- 29 Mehefin 2009.

4.2 Tra'n cynnal yr archwiliadau hyn rhoddwyd sylw penodol i'r trefniadau yn eu lle er mwyn sefydlu rheolaeth fewnol gadarn ac amddiffyniadau yn erbyn twyll.

4.3 Ble'n berthnasol, caiff adroddiadau archwiliad mewnol eu categoreiddio er mwyn rhoi barn archwilio gyffredinol ar amgylchedd reolaeth y system neu sefydliad benodol dan sylw. Cafodd pob argymhelliad a gyflwynwyd o fewn yr adroddiadau eu gwneud er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol sydd yn lliniaru risgiau gweithredol, ac i sefydlu ymarfer da.

4.4 O'r adroddiadau perthnasol i gynllun archwilio 2008/09 a dderbyniodd gatergori Barn 'A' i 'CH', derbyniodd 80% farn 'A' neu 'B' sy'n welliant arwyddocaol ar y flwyddyn flaenorol, pan roedd y ffigwr oddeutu 70%. Ni dderbyniodd unrhyw adroddiad farn 'CH'.

4.5 Derbyniodd tua 95% o'r archwiliadau dilyniant oedd wedi eu cynnwys yn benodol yng nghynllun 2008/09 neu a ryddhawyd yn y cyfnod 1 Ebrill 2008 i 31 Mawrth 2009 farn "Derbyniol" neu "Rhagorol", gan gynnwys pob un oedd yn berthnasol i systemau ariannol craidd. Mae hyn yn awgrymu fod trefniadau cadarn o fewn yr awdurdod i weithredu argymhellion archwilio er mwyn cryfhau rheolaethau mewnol a rheoli risg.

## 5. PERFFORMIAD ARCHWILIO

5.1 Roedd canlyniadau dangosyddion perfformiad y gwasanaeth archwilio mewnol yn ystod 2008/09 fel a ganlyn:

| Disgrifiad dangosydd | Perfformiad 2007/08 | Targed blwyddyn 2008/09 | Canlyniadau 2008/09 |
|---|---|---|---|
| % o'r Cynllun Archwilio wedi ei gwblhau | 96% | 95% | **95%** |
| % archwiliadau a gwblhawyd o fewn amser yn y cynllun ('tolerance' 10%) | 85% | 85% | **58%** |
| % o waith dilyniant sydd yn cael ei gwblhau o fewn amserlen a bennwyd ar adeg yr archwiliad gwreiddiol | 74% | 80% | **95%** |
| Nifer y Safonau Archwilio ble ceir cydymffurfiaeth llawn yn ôl adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r gwasanaeth | 11 allan o 11 | 11 allan o 11 | **8 llawn, 3 rhannol** |
| Dyddiau cynhyrchiol fel % o'r cyfanswm sydd ar gael (heb gynnwys gwyliau) | 64% | 71.6% | **71%** |
| Cyfran o'r adroddiadau dilyniant Archwilio Mewnol [a ryddhawyd yn derfynol rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2009] yn cyrraedd barn "Derbyniol" neu well (mesur corfforaethol) | 94% | 90% | **95%** |

5.2 Ni lwyddwyd i gyrraedd rhai targedau am y rhesymau canlynol:

% archwiliadau a gwblhawyd o fewn amser yn y cynllun ('tolerance' 10%): roedd perfformiad yn erbyn y dangosydd yma dros y flwyddyn ymhell o dan y targed. Bu newidiadau staffio a rheolaethol yn ystod y flwyddyn i anelu i wella perfformiad ar y dangosydd yma, a teg dweud fod rhesymau am fynd dros yr amser a ganiateir yn amrywio o un archwiliad i'r llall a hefyd o un archwiliwr i'r llall. Er mwyn mynd i'r afael ymhellach â'r sefyllfa yma, bwriedir gofyn i bob archwiliwr ac arweinydd tîm am esboniad ysgrifenedig pob tro y bydd archwiliad yn mynd dros yr amser a ganiatawyd yn y cynllun ar ei gyfer.

Dyddiau cynhyrchiol fel % o'r cyfanswm sydd ar gael (heb gynnwys gwyliau): Ceir dadansoddiad llawn o'r amser digynnyrch yn Atodiad 2. Gwelir o'r tabl fod gwelliant sylweddol wedi bod yn ystod 2008/09 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac mai prin iawn o'r targed oedd perfformiad yr Uned ar ddiwedd y flwyddyn. Bu gwelliant cyson yn ystod y flwyddyn – disgwylir y bydd hyn yn cael ei gario trosodd i 2009/10. Ceir esboniad pellach ym mharagraff 3.3 uchod.

Nifer y Safonau Archwilio ble ceir cydymffurfiaeth llawn yn ôl adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r gwasanaeth: Cyflwynwyd adolygiad blynyddol SAC i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 26 Mehefin 2008. Ynddo, roedd yr archwilwyr allanol yn cymharu Archwilio Mewnol yn erbyn Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig. Daethant i'r casgliad fod y gwasanaeth yn cyrraedd 8 o'r safonau hyn yn llawn, ond fod agweddau o'r 3 safon arall lle roedd angen gwella. Gweler rhan 6 isod am esboniad llawn.

## 6. CYDYMFFURFIAETH Â'R CÔD YMARFER

6.1 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn mesur Archwilio Mewnol yn erbyn gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol 2006. Adroddodd Swyddfa Archwilio Cymru ym Mehefin 2008 fod gan Cyngor Gwynedd wasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol sy'n cydymffurfio ar y cyfan â safonau y Côd Ymarfer.

6.2 Roedd adroddiad y archwiliwr allanol yn nodi fod Archwilio Mewnol wedi cyrraedd y safonau canlynol:

- Cwmpas yr Archwiliad Mewnol
- Moeseg i Archwilwyr Mewnol
- Pwyllgor Archwilio
- Cydberthnasau
- Staffio, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus
- Strategaeth Archwilio a Chynllunio
- Gofal Proffesiynol Priodol
- Cyflwyno Adroddiadau

Adroddwyd mai yn rhannol yr oedd Archwilio Mewnol yn cyrraedd y safonau canlynol:

- Annibyniaeth – *oherwydd cyfrifoldebau eraill yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn ychwangeol i Archwilio Mewnol.*
- Cyflawni gwaith archwilio – *gan nad oedd nodyn briffio ffurfiol yn cael ei anfon i reolwyr ar gychwyn archwiliadau, a gan fod fformat papurau gwaith yn amrywio rhwng y 4 tîm o fewn yr uned.*
- Perfformiad, ansawdd ac effeithiolrwydd – *nid oedd y llawlyfr archwilio i staff yn gyfoes.*

6.3 Roedd yr adroddiad yn cynnwys 5 o argymhellion. Mae'r tabl isod yn dangos yr ymateb i'r argymhellion hyn:

| **Argymhelliad** | | **Sylwadau / Cynnydd** |
|---|---|---|
| A1 | Ailystyried rôl a chyfrifoldebau Pennaeth Archwilio Mewnol. | Adroddodd y Pennaeth Cyllid i'r Pwyllgor Archwilio ym Mehefin 2008 nad yw'r argymhelliad yma yn adlewyrchiad ar yr Uned Archwilio Mewnol gan mai ef fel Pennaeth Cyllid yn hytrach na'r Rheolwr Archwilio a Risg sy'n gyfrifol am gyfrifoldebau'r Rheolwr a bod y cyfrifoldebau hynny yn ychwanegu at statws y swydd. |
| A2 | Paratoi, trafod a chytuno ar nodyn briffio gyda rheolwyr perthnasol ar gyfer pob archwiliad. | Hyn bellach yn ei le – mae disgwyl ar archwilwyr i baratoi nodyn briffio ffurfiol ar gyfer pob archwiliad, sydd i'w adolygu gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fel rhan o'r trefniadau sicrhau ansawdd. |
| A3 | Safoni'r dulliau gwaith a'r broses o ddogfennu'r archwiliad ar draws y timau o fewn yr adran Archwilio Mewnol. | Yn ystod 2008/09 datblygwyd systemau a threfniadau ar gyfer defnyddio papurau gwaith eletronig, er mwyn mynd i'r afael â'r mater yma. Mae'r trefniadau newydd yn cynnig ffordd o gofnodi gwaith ac adrodd ar archwiliadau mewn modd gyson ar draws yr Uned. Erbyn dechrau 2009/10 disgwylir y bydd pob archwiliad yn cael ei gynnal yn y modd yma. |
| A4 | Sicrhau y caiff y rhesymeg sy'n ategu'r barn a ddyrannir ei dogfennu, ac y caiff ei hategu'n ddigonol gan ganfyddiadau cyffredinol yr archwiliad. | Os oes amheuaeth am farn archwiliad, yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg sydd â'r gair olaf, a bydd yn nodi ei resymeg ar y ffeil. Defnyddir y dull yma os oes amwyster neu ddadl gyda'r cwsmer ynglyn â'r categori barn yn unig. |
| A5 | Cadarnhau polisïau a gweithdrefnau mewn llawlyfr archwilio cyfoes, ac ar ôl hynny, eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru i adlewyrchu newidiadau o ran arferion a safonau gwaith. | Llawlyfr newydd wedi ei baratoi a'i gyflwyno i staff. |

6.4 Ymhellach, mae Archwilio Mewnol wedi datblygu cynllun gweithredu ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r Côd Ymarfer mewn meysydd lle nad oes cydymffurfiaeth llwyr ar hyn o bryd.

## 7. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2009/10

7.1 Cyflwynwyd cynllun archwilio mewnol drafft ar gyfer 2009/10 i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 12 Mawrth 2009. Mae'r cynllun terfynol wedi ei gynnwys yn Atodiad 3.

## 8. ARGYMHELLIAD

8.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad yma fel adroddiad blynyddol ffurfiol yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn unol â gofynion y Côd Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig.

**<u>Gwaith o'r Cynllun sydd wedi cyfrannu at y farn archwilio yn yr adroddiad blynyddol yma:</u>**

**CORFFORAETHOL**

Trosolwg o Deithio Cyffredinol
Rheolaeth Corfforaethol - Trefniadau Awdurdodi Swyddogion
Cyfrannu at Ddarparu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
Cofrestr Contractau Corfforaethol
Rhestrau Contractwyr Cymeradwy
Contractau: Arian Dargadw
Rheoli Contractau: Adrodd ar Or-wariant
Contractau - Gwirio Eithriadau
Menter Twyll Genedlaethol (NFI)
TGCh: Gwaith Gwrth-Dwyll
Contractau SBIG

**ADRAN Y PRIF WEITHREDWR**

**GWASANAETH POLISI A PHERFFORMIAD**

**Caffael**

Cytundebau Caffael Corfforaethol - rheoli cytundebau ar ôl eu gosod
Prosiect e-Gaffael

**Rheoli Perfformiad a Phrosiectau**

Prosiect System TG Gwasanaethau Darparu

**Ymchwil a Gwybodaeth**

Allbwn Prosiectau Ymchwil

**CYFADRAN ADNODDAU**

**GWASANAETH ADNODDAU DYNOL**

**Polisi Personel**

Trefniadau penodi - cymwysterau, rhinweddau hanfodol, canolwyr ayb

**GWASANAETH CEFNOGAETH GOFAL CWSMER**

**Gofal Cwsmer**

Canolfan Gyswllt Galw Gwynedd

**Stadau Eiddo**

Gwaredu Eiddo'r Cyngor

**Technoleg Gwybodaeth**

Rheolaethau Trwyddedu Meddalwedd (Corfforaethol)
Rheolaethau Trwyddedu Meddalwedd (Ysgolion)
Diogelwch Rhwydwaith (gan gynnwys Mynedfa Citrix)
TGCh: Rhannu Gwybodaeth
Rheolaeth Cyfluniad
Meddalwedd Atal "Malware"
Rheolaeth Capasiti Caledwedd

**GWASANAETH CYLLID**

**Arianwyr**

Systemau derbyn arian
Gweinyddiaeth Tocynnau Mantais Trafnidiaeth Gyhoeddus

**Budd-daliadau**

Taliadau Dewisol

**Cyflogau**

Trefniadau Cychwyn, Addasiadau a Therfynu Gweithwyr
Gweithredu'r Adolygiad Tâl Lleol

**Cyfrifeg Ganolog**

Trosglwyddo a Chysoni System Bwydo'r Prif Gyfriflyfr

Effeithlonrwydd y Strwythr Codio

**Incwm-Dyledwyr**

System Dyledwyr - trefniadau atal biliau

**Taliadau-Credydwyr**

Profion CAATs ar y System Credydwyr

Uned Taliadau - Rhannu Dyletswyddau

Trefniadau Anfonebu Mewnol

Adolygu Trothwyon Gwirio

Trosglwyddiadau o systemau ariannol ysgolion

**Treth Cyngor**

Treth Cyngor - Eithriadau, Tai gwag ayb

Treth Cyngor - cofrestru eiddo newydd

**Yswiriant a Rheoli Risg**

Trefniadau Yswiriant

**GWASANAETH GWEINYDDOL A GWARCHOD Y CYHOEDD**

**Cofrestru**

Pridiannau Tir

**Gwasanaethau Aelodau**

Treuliau Aelodau

**CYFADRAN AMGYLCHEDD**

**AR DRAWS Y GYFADRAN**

Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru - Gwasanaeth Twneli

**GWASANAETH CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**Cynllunio**

Cynllunio - Gorfodaeth

**Gofal stryd a thrafnidiaeth integredig**

Incwm Ffioedd Trafnidiaeth

Trwyddedau Adeiladwaith ar y Stryd

Siwrne Saff

**GWASANAETH PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

**Uned Comisiynu**

Strategaeth Gwastraff - Datblygiadau Rhanbarthol

**Uned Darparu Bwrdeistrefol**

Cynnal Tiroedd

**Uned Darparu Priffyrdd**

Defnydd Is-Gontractwyr, Uned Darparu Gwaith

**GWASANAETH YMGYNGHORIAETH GWYNEDD**

**Adeiladu a Pheirianneg**

Cydymffurfiaeth â rheoliadau Contruction Design Management (CDM)

**Ar draws y gwasanaeth**

Contractau Cyfredol: Ymgynghoriaeth Gwynedd

Cyfrifon Terfynol: Ymgynghoriaeth Gwynedd

**UNED GEFNOGOL AMGYLCHEDD**

Prosesu Costau Teithio

**CYFADRAN DATBLYGU**

**GWASANAETH DYSGU GYDOL OES**

**Gwasanaethau Ieuenctid a Chymuned a Chyllid Myfyrwyr**

Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu

**Hamdden a Datblygu Chwaraeon**

Canolfan Hamdden Arfon, Caernarfon

Canolfan Denis Arfon

Canolfan Hamdden Penllyn, Y Bala

Trefniadau Cau Pwll Nofio Harlech

**GWASANAETH ECONOMI AC ADFYWIO**

**Adfywio Cymunedol**
Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf
**Cynllunio Strategol ac Ariannu**
Cyfrifon Terfynol: Uned Adfywio
**Hyfforddiant Gwynedd**
Gweinyddiaeth a Rheolaeth Hyfforddiant Gwynedd
**Sgiliau a Mentergarwch**
Llwyddo'n Lleol
**GWASANAETH PLANT A THEULUOEDD**
**Adnoddau (Plant a Theuluoedd)**
Plant - Lleoliadau All-Sirol
Plant - Lwfansau Mabwysiadu, Gorchymyn Preswyl a Gwarcheidiaeth Arbennig
**Canolog (Plant a Theuluoedd)**
System Integredig Plant
**GWASANAETH YSGOLION**
**Ategol**
Grant Ysgolion Bro Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007-08
Grant Gwisg Ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007-08
Grant Trosglwyddo Rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3
Grant Gwella Adeiladau Ysgolion
Grant Addysg ôl-16
**Ysgolion Cynradd**
Dyletswyddau Llywodraethwyr (Ysgolion Cynradd)
Rheolaeth Gyllidebol mewn Ysgolion Cynradd
Gosodiadau Ysgolion Cynradd
**UNED GYLLID DATBLYGU**
Fformiwla Cyllido Ysgolion
**CYFADRAN GOFAL**
**GWASANAETH TAI**
**Rheolaeth a Rhenti a Thai Cefnogol**
Cyfraniadau Gwresogi gan Denantiaid
**Tai Sector Breifat**
Menter "Yma i Helpu"
**Uned Weithredol Cynnal a Chadw Tai**
Cyfrifon Terfynol: Tai
Cynnal a Chadw Tai Cyngor - Llif Gwaith
**GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**
**Anabledd Corfforol**
Anabledd Corff - Rheolaeth Bathodynau Glas
Anabledd Corff - Cytundeb Gwasanaeth Cyd-Storfa
**Anabledd Dysgu**
Anabledd Dysgu - Gofal Dydd Preifat
Cofrestr Anabledd Dysgu - rheolaethau sicrhau cyflawnder
**Ar draws y gwasanaeth**
Gwasanaethau Cymdeithasol: Trefniadau Ar Alwad a Brys
Grantiau Gwasanaethau Cymdeithasol
Costau Gweithwyr Cefnogol
**Pobl Hyn**
Rheolaeth Cytundeb Apetito
**GWASANAETHAU DARPARU**
**Arlwyo**
Pryniant Bwyd a Rheolaeth Stoc
**Dydd a Phreswyl**
Cartref Henoed Plas Hafan, Nefyn

Cartref Henoed Plas Ogwen, Bethesda
Cartref Henoed Plas Pengwaith, Llanberis
Cartref Henoed Hafod y Gest, Porthmadog
Cartref Henoed Plas Gwilym, Penygroes
Cartref Henoed Hafod Mawddach, Abermaw
Cartref Henoed Bron y Graig, Y Bala
Cartref Henoed Bryn Llewelyn, Llan Ffestiniog
Cartref Henoed Bryn Blodau, Llan Ffestiniog
Cartref Henoed Llys Cadfan, Tywyn
Rhoddion i Staff Cartrefi Preswyl
Eiddo Gwasanaethau Darparu - Comisiynu Gwaith
Anabledd Dysgu - Canolfannau Dydd (Arfon)
Anabledd Dysgu - Canolfannau Dydd (Dwyfor)
Anabledd Dysgu - Canolfannau Dydd (Meirionnydd)

**Gofal Cartref**

Rheolaeth Cyflogau Gofalwyr Cartref

**UNED GEFNOGOL GOFAL**

Iechyd a Diogelwch Gweithwyr Gofal

**UNED POLISI A PHERFFORMIAD GOFAL**

Casglu Data Gwasanaethau Cymdeithasol at bwrpasau Rheoli Perfformiad

## Dadansoddiad Amser Archwilio Mewnol 1 Ebrill 2008 – 31 Mawrth 2009:

| 2007/08 | | | 2008/09 |
|---|---|---|---|
| 3,077 | **Cyfanswm dyddiau** | | 2,951 |
| 516 | **Llai Gwyliau (Statudol ac Anstatudol)** | | 411 |
| **2,561** | **Cyfanswm y dyddiau ar gael** | | **2,540** |
| | Llai: | | |
| 25 | Gwyliau Arbennig | | 23 |
| 46 | Salwch | | 48 |
| 79 | Hyfforddiant: | Cymhwyster Proffesiynol | 22 |
| 194 | | Arall | 116 |
| **2,217** | **Dyddiau ar gael** | | **2,331** |
| | Llai Amser di-gynnyrch: | | |
| 56 | | Gweinyddiaeth | 53 |
| 8 | | Teithio na ellid mo'i dosrannu | 6 |
| 75 | | Gwaith Cefndirol | 52 |
| 126 | | Cyfarfodydd | 134 |
| 42 | | Cofnodi a Rheoli Amser | 38 |
| 2 | | Rheolaeth Gyffredinol | 1 |
| 8 | | Staff - penodi a datblygu | 4 |
| 186 | | Rheolaeth Archwilio | 180 |
| 12 | | Gwerthuso | 14 |
| 0 | | Cyflwyno Hyfforddiant | 11 |
| 2 | | Arfanu Swyddi | 0 |
| 0 | Ychwanegu: | Dyddiau gan staff asiantaeth | 0 |
| 62 | Llai: gwaith rheolaethol arall (Rheolwr Archwilio a Risg) | | 39 |
| **1,638** | **Cyfanswm dyddiau cynhyrchiol** | | **1,799** |
| 59 | Llai: gwaith i gyrff allanol | | 63 |
| **1,579** | **Cyfanswm dyddiau cynhyrchiol, Cyngor Gwynedd** | | **1,736** |

## Dadansoddiad o ddefnydd dyddiau cynhyrchiol Cyngor Gwynedd:

| **Math o waith** | **Dyddiau** | **Fel %** |
|---|---|---|
| Cwblhau gwaith blwyddyn flaenorol | 179 | 10.33% |
| Cynghori | 67 | 3.86% |
| Gwaith Cynllun 2008/09 | 1,282 | 73.83% |
| Gwaith dilyniant (ddim yn y cynllun) | 93 | 5.34% |
| Gwaith Ymatebol/Archwiliadau Arbennig | 115 | 6.64% |
| **Cyfanswm** | **1,736** | **100.00%** |

# Cynllun Archwilio Mewnol 2009/10

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | |
| 1-CORFF-02/2010 | Defnydd Ymgynghorwyr | **20.00** |
| 1-CORFF-09/2010 | Trefniadau eithrio o'r gyfundrefn hyfforddi gorfforaethol | **15.00** |
| 1-CPGV-01/2010a | Fframwaith Lywodraethu Gorfforaethol | **20.00** |
| 1-CPGV-01/2010ags | Cyfrannu at Ddarparu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol | **20.00** |
| 1-CPGV-01/2010b | Llywodraethu Corfforaethol - Adolygiad Cymharol | **10.00** |
| 1-CTRT-04/2010a | Rheoli Contractau - Ymweliadau Safle | **6.00** |
| 1-CTRT-04/2010b | Rheoli Contractau - Bondiau Perfformiad | **4.00** |
| 1-CTRT-04/2010c | Rheoli Contractau - Contractau SBIG | **10.00** |
| 1-CTRT-06/2010 | Telerau Contractau a Dogfennau Tendro | **5.00** |
| AN-ACY-03/2010 | Rheolaeth Gyllidebol | **25.00** |
| AO-ARL-05/2010 | NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) | **40.00** |
| BE-POL-07/2010 | Dangosyddion Perfformiad Corfforaethol | **25.00** |
| **ADDYSG** | | |
| **Adnoddau** | | |
| 4-DAT-YSG-TRAF/2010 | Cludiant i Ysgolion | **12.00** |
| **Consortiwm Addysg** | | |
| 4-DAT-X-ADD/2010brec | Grant y Fenter Brecwastau Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd | **10.00** |
| 4-DAT-X-ADD/2010bro | Grant Ysgolion Bro Llywodraeth Cynulliad Cymru | **5.00** |
| 4-DAT-X-ADD/2010ks23 | Grant Trosglwyddo Rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3 | **5.00** |
| 4-DAT-X-ADD/2010sb | Grant Gwella Adeiladau Ysgolion | **5.00** |
| 4-DAT-X-ADD/2010yb | Grant Cymorth i Benaethiaid Mewn Ysgolion Bach | **3.00** |
| 4-DAT-X-ELWa/2010 | Grant Addysg ôl-16 | **1.00** |
| **Disgyblion a chynhwysiad** | | |
| EADDA10/2010 | Integreiddio | **20.00** |
| **Ysgolion** | | |
| EADDA16/2010 | Ysgolion Cynradd - Trefniadau Recriwtio Staff Ategol ac Athrawon Llanw | **24.00** |
| EADDA21/2010 | Ôl-ddyledion Arian cinio, Ysgolion Cynradd | **25.00** |
| EADDA32/2010 | Cronfeydd Answyddogol | **6.00** |
| EADDAY4004/2010 | Ysgol Brynrefail | **12.00** |
| EADDAY4030/2010 | Ysgol Y Gader | **11.00** |
| EADDAY4031/2010 | Ysgol Y Moelwyn | **11.00** |
| EADDAY4033/2010 | Ysgol Y Berwyn | **12.00** |
| EADDAY4039/2010 | Ysgol Syr Hugh Owen | **12.00** |
| EADDAY7000/2010 | Ysgol Coed Menai | **6.00** |
| EADDAY7002/2010 | Ysgol Pendalar | **6.00** |
| EADDAY7010/2010 | Ysgol Hafod Lon | **6.00** |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| **ADNODDAU DYNOL** | | |
| **Iechyd a Diogelwch** | | |
| BC-PER-02/2010 | Archwiliadau Iechyd a diogelwch | **15.00** |
| **CYLLID** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| AO-ARL-07/2010 | Trwyddedau Systemau Cyllid | **25.00** |
| **Ariannol** | | |
| AO-ARL-06/2010 | Rheolaeth Sieciau | **20.00** |
| **Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys** | | |
| AN-ACY-05/2010 | Rheolaeth Trysorlys - Strategaeth Newydd | **10.00** |
| **Cyfrifeg** | | |
| 4-DAT-CYLL-BIL/2010 | Addysg All-Sirol - Trefniadau Anfonebu | **10.00** |
| AN-ACY-01/2010 | Tendr Bancio | **12.00** |
| AN-ACY-08/2010 | Dychweliadau Treth | **12.00** |
| AN-ACY-10/2010 | Praeseptau | **10.00** |
| AN-ACY-13/2010 | Cysoni Banc | **20.00** |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | |
| AL-CYF-01/2010sys | System Personel-Cyflogau Newydd | **20.00** |
| AP-PEN-01/2010 | Pensiynau | **40.00** |
| **Refeniw** | | |
| AC-TR-01/2010 | System Treth Cyngor - Fformiwlau ac Algorithmau | **25.00** |
| AC-TR-09/2010 | Trethiant Lleol - Cytundeb Argraffu | **10.00** |
| AC-TR-11/2010 | Treth Di-Annedd - Rhestr werthuso | **20.00** |
| **DARPARU A HAMDDEN** | | |
| **Hamdden** | | |
| EHAMAC6404/2010 | Pwll Nofio Bangor | **8.00** |
| EHAMAC6406/2010 | Canolfan Hamdden Plas Ffrancon | **8.00** |
| EHAMAC6422/2010 | Canolfan Hamdden Dwyfor | **8.00** |
| EHAMAC6448/2010 | Canolfan Hamdden Bro Dysynni | **8.00** |
| **Preswyl a Dydd** | | |
| 5-GOF-CART1333/2010 | Plas Maesincla, Caernarfon | **8.00** |
| 5-GOF-CART1341/2010 | Plas y Don, Pwllheli | **8.00** |
| 5-GOF-CART1345/2010 | Plas Hedd, Bangor | **8.00** |
| 5-GOF-CART1356/2010 | Cefn Rodyn, Dolgellau | **8.00** |
| GDAPR-H01/2010 | Arian Personol Preswylwyr Cartrefi | **20.00** |
| GDAPR-H01/2010cr | Cartrefi Preswyl - Cronfeydd Answyddogol | **15.00** |
| GDARP-D07/2010 | Bryn Afon | **5.00** |
| **DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL** | | |
| **Cofrestru** | | |
| BB-YSG-01/2010 | Trefniadau Etholiadau | **6.00** |
| BB-YSG-03/2010 | Gweinyddu'r Gofrestr Etholiadol | **10.00** |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| BB-YSG-17/2010 | Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau | **20.00** |
| **Democratiaeth** | | |
| BB-YSG-18/2010 | Hyfforddi Aelodau | **8.00** |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | |
| BE-POL-10/2010 | Cist Gwynedd | **10.00** |
| **Cefnogi Busnes** | | |
| DDAT-BS-03/2010 | Benthyciadau Cefnogi Busnes | **10.00** |
| **Ieuenctid** | | |
| EADDU01/2010 | Gweinyddu Grantiau a Benthyciadau Myfyrwyr | **12.00** |
| **Morwrol a Pharciau Gwledig** | | |
| EHAMM-01/2010 | Yr Hafan, Pwllheli | **15.00** |
| EHAMM-04/2010 | Gwasanaeth Morwrol | **20.00** |
| **Strategaeth a Datblygu** | | |
| DDAT-AD-02/2010 | Cyfrifon Terfynol: Uned Adfywio | **5.00** |
| DDAT-AD-05/2010 | Cynllun Datblygu Gwledig Cymru | **12.00** |
| **GOFAL CWSMER** | | |
| **Cyfathrebu** | | |
| BD-PW-09/2010 | Diweddaru'r wefan a'r safle mewnrwyd | **15.00** |
| **Cynllunio Argyfwng** | | |
| BC-PER-01/2010 | Cynllunio Argyfwng a Pharhad Busnes | **16.00** |
| **Cyswllt Cwsmer** | | |
| BD-PW-02/2010 | Canolfan Gyswllt Galw Gwynedd | **15.00** |
| **Gwybodaeth** | | |
| BD-PW-10/2010 | Cofrestr Tir ac Eiddo (Uned Wybodaeth) | **10.00** |
| EDIW-UBD-01/2010 | Uned Rheoli Cofnodion | **10.00** |
| **Technoleg Gwybodaeth** | | |
| AW-TG-02/2010a | Logio a Monitro | **10.00** |
| AW-TG-02/2010b | Rheolaeth Asedau Caledwedd | **10.00** |
| AW-TG-05/2010 | Trefniadau archebu Nwyddau TG | **10.00** |
| AW-TG-11/2010ctrc | Contractau TGCh | **10.00** |
| AW-TG-12/2010 | Rheolaeth Cyfrifon Defnyddwyr | **5.00** |
| **Tir ac Eiddo'r Cyngor** | | |
| BA-EID-02/2010 | Cynllun Rheoli Asedau | **20.00** |
| **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| 5-GOF-PaPh-1/2010 | Casglu Data Gwasanaethau Cymdeithasol at bwrpasau Rheoli Perfformiad | **25.00** |
| 5-GOF-X-CYLL/2010a | Cyllidebu Datganoledig (Cynllun Gweithredu Adolygiad ar y Cyd) | **25.00** |
| 5-GOF-X-CYLL/2010b | Partymau Gwariant Gwasanaethau Oedolion (Cynllun Gweithredu Adolygiad ar y Cyd) | **20.00** |
| 5-GOF-X-CYLL/2010c | Fformiwlau Cost Uned (Cynllun Gweithredu Adolygiad ar y Cyd) | **12.00** |
| GDAPR-L01/2010 | Uned Hawliau Lles | **10.00** |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| GTG-SYS01/2010 | RAISE | **15.00** |
| **Busnes** | | |
| GGWAS-02/2010 | Contractau a Gwariant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cynllun Gweithredu Adolygiad ar y Cyd) | **25.00** |
| **Oedolion** | | |
| GCC-08/2010 | Taliadau i Gartrefi Preswyl Annibynnol | **20.00** |
| **Plant a Theuluoedd** | | |
| GGWAS-P03/2010 | Plant - Basdata Gweithwyr Asiantaeth (Cynllun 3 blynedd) | **20.00** |
| GGWAS-P06/2010 | Gwasanaethau Plant - "referrals" a goruchwylio | **25.00** |
| GGWAS-PLANT2/2010 | Cefnogaeth i Deuluoedd | **15.00** |
| GGWAS-PLANT8/2010 | System Cynllunio Dyfodol Plant a Phobl Ifanc Mewn Gofal (Cynllun 3 blynedd) | **12.00** |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| 3-AMG-ACGC/2010 | Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru | **10.00** |
| **Fflyd** | | |
| PGW-TR-02/2010 | Diogelwch Asedau a Storfeydd | **30.00** |
| PPR-GW03/2010 | Rheolaeth Fflyd | **20.00** |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | |
| PBW-10/2010 | Strategaeth Gwastraff | **20.00** |
| PBW-10/2010saf | Safleoedd Gwastraff Ailgylchu | **15.00** |
| **RHEOLEIDDIO (CYNLLUNIO, TRAFNIDIAETH A GWARCHOD Y CYHOE** | | |
| **Amgylchedd** | | |
| 3-AMG-GWLAD/2010 | Llwybrau Cyhoeddus | **6.00** |
| 3-AMG-X-GRANT/2010 | Grantiau Gwasanaethau Amgylchedd llai na £100,000 | **10.00** |
| **Cynllunio** | | |
| DCYN-RD-01/2010 | Cytundebau Adran 106 | **15.00** |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | |
| 2ADN-GGYC-GYC/2010 | Gwarchod y Cyhoedd - Defnydd Flare; Rheoli Gwaith | **15.00** |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | |
| 3-AMG-FFYRDD/2010 | Gorchmynion Ffyrdd | **20.00** |
| **STRATEGOL A GWELLA** | | |
| **Caffael ac Effeithlonrwydd** | | |
| BE-POL-08/2010e | Prosiect e-Gaffael | **15.00** |
| BE-POL-08/2010p | Partneriaeth Gaffael Gogledd Cymru | **15.00** |
| **Cyfeiriad Strategol** | | |
| T-TAI-C02/2010 | Grant "Independence and Wellbeing" | **15.00** |
| **TAI** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| T-TAI-H04/2010 | Cymunedau o Angen - gwyriadau ac ymyrraeth (Cynllun 3 blynedd) | **15.00** |
| **Cynnal a Chadw Tai** | | |
| T-TAI-S07/2010 | Cyfrifon Terfynol: Tai | **10.00** |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
| --- | --- | --- |
| **Rhent a Rheolaeth Tai** | | |
| T-TAI-H05/2010 | Cynllun Warden Stâd | **12.00** |
| T-TAI-T01/2010 | Trefniadau Trosglwyddo'r Stoc Dai | **15.00** |
| **Tai Sector Breifat** | | |
| T-TAI-G06/2010 | Addasiadau Lles: Monitro, Rheolaeth a Gorfodaeth | **20.00** |
| T-TAI-G09/2010 | Partneraeth Gwella Tai - "Houseproud" | **10.00** |
| T-TAI-G10/2010 | Trefniadau dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd (Cynllun 3 blynedd) | **12.00** |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | |
| **Adeiladau ac Amgylcheddol** | | |
| 3-AMG-EID/2010 | Gwasanaethau Adeiladu - Blaenoriaethu Gwaith | **15.00** |
| **Ar draws yr adran** | | |
| PYMG-CON/2010bgr | Cynllun Gorsaf Rheilffordd Bangor | **15.00** |
| PYMG-CON/2010CC | Contractau Cyfredol: Ymgynghoriaeth Gwynedd | **5.00** |
| PYMG-CON/2010CT | Cyfrifon Terfynol: Ymgynghoriaeth Gwynedd | **10.00** |
| | | **1,573.00** |